Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

dysgu
learning

Coetiroedd ar gyfer Dysgu ac Y Wlad sy'n Dysgu
Strategaeth Addysg i Gymru

Woodlands for Learning and the Learning Country
Education Strategy for Wales

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

CYNNWYS

RHAGAIR 4

CYFLWYNIAD 6

EIN CANLYNIAD 8

SUT YDYM YN GWEITHIO 10

ASTUDIAETHAU ACHOS

1. Darpariaeth uniongyrchol 12 14

2. Hwyluso 16 18 20

3. Dylanwadu 22

CONTENTS

FOREWORD 5

INTRODUCTION 7

OUR OUTCOME 9

HOW WE WORK 11

CASE STUDIES

1. Direct delivery 13 15

2. Facilitating 17 19 21

3. Influencing 23

Cyhoeddwyd Coetiroedd i Gymru, sef strategaeth coed a choetiroedd y Cynulliad Cenedlaethol, yn 2001. O dan y rhaglen weithredu gyntaf, 'Coetiroedd i Bobl', un o'r amcanion allweddol yw **gwneud y defnydd gorau o goetiroedd ar gyfer dysgu**. Mae'r ddogfen hon yn nodi sut y bydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn cyrraedd y nod hwn ac mae'n dangos sut mae gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau â meddylfryd tebyg yn helpu CC Cymru i ddarparu amcanion y strategaeth hon a darparu sylfaen gadarn ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dymuno i Gymru fod yn wlad sy'n dysgu, lle mae addysg gydol oes o ansawdd uchel yn rhyddhau doniau, yn rhoi mwy o gyfle, yn grymuso cymunedau, yn darparu gwell swyddi a'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl er mwyn ffynnu yn yr economi ffyniannus presennol, gan helpu i greu dyfodol cynaladwy i Gymru.

Mae modd defnyddio coetiroedd i ategu addysg ar bob lefel ar draws amrediad eang o bynciau. Er enghraifft, rydym wedi dechrau cyflwyno'r Cyfnod Sylfaenol er mwyn cael dull newydd o ddysgu yn benodol ar gyfer plant rhwng tair a saith oed. Elfen orfodol yn y cyfnod hwn yw dysgu yn yr awyr agored a bydd defnyddio coetiroedd yn chwarae rhan allweddol wrth ddarparu'r elfen hollbwysig hon. Hefyd, mae ein fframwaith ar gyfer Llwybrau Dysgu 14 -19 yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu sgiliau trwy ddefnyddio coetiroedd ac mae modd mynd ymlaen i TGAU, Lefel Uwch, cymwysterau galwedigaethol, addysg bellach ac uwch, gyda'r potensial o gael prentisiaethau modern yn y diwydiant coedwigaeth.

Trwy weithredu ein polisïau ar gyfer gwella addysg a hyfforddiant, rydym yn bwriadu codi lefelau cyflawniad a grymuso plant, pobl ifanc ac oedolion i fod yn dda eu byd yn gymdeithasol ac economaidd, sy'n hollbwysig wrth ddatblygu economi ffyniannus.

Rydym yn gweithio'n agos â'r llu o sefydliadau sy'n ymwneud â gwasanaethau plant, addysg a sgiliau yng Nghymru er mwyn datblygu a gweithredu ein polisïau. Credaf fod Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn sefydliad o'r fath ac y bydd coetiroedd yn chwarae rhan bwysig wrth ein helpu i fynd i'r afael â heriau mawr y dyfodol ym meysydd addysg, dysgu gydol oes a sgiliau.



Jane Davidson AC

Gweinidog dros Addysg ac Addysg Gydol Oes a Sgiliau

Woodlands for Wales, the National Assembly's strategy for trees and woodlands, was published in 2001. Under its first programme for action, 'Woodlands for People', one of the key objectives is to **maximise the use of woodlands for learning**. This document sets out how Forestry Commission Wales will achieve this goal and demonstrates how working in partnership with like-minded organisations is helping FC Wales to deliver on this strategy now and provide a firm foundation for the future.

The Welsh Assembly Government wants Wales to be a learning country, where high quality, lifelong learning liberates talent, extends opportunities, empowers communities, provides better jobs and the skills that people need to prosper in today's vibrant economy, helping to create a sustainable future for Wales.

Woodlands can be used to support learning at all levels and across a wide range of subject areas. For example, we have begun to introduce the Foundation Phase to provide a new approach to learning tailored to the needs of three to seven year olds. A mandatory element within this phase is outdoor learning and using woodlands will play a key role in delivering this vital ingredient. Also, our framework for 14 -19 Learning Pathways provides opportunities for developing skills using woodlands which can then be built into GCSEs, 'A' levels, vocational qualifications, further and higher education, with the potential to extend to modern apprenticeships within the forest industry.

Through implementing our policies for improving education and training, we aim to raise levels of achievement and empower children, young people and adults to achieve social and economic well being, vital to developing a prosperous economy.

We work closely with the many organisations involved with children's services, learning and skills in Wales in order to develop and implement our policies. I believe Forestry Commission Wales is one such organisation and that woodlands will play an important role in helping us to meet the major challenges that lie ahead in the fields of education, lifelong learning and skills.



Jane Davidson AM

Minister for Education, Lifelong Learning and Skills

CYFLWYNIAD

Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn gweithredu fel Adran Goedwigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ac fel stiwardiaid ar gyfer 38% o'r coetiroedd yng Nghymru sy'n eiddo i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Ein gweledigaeth yw bod holl goetiroedd Cymru yn cael eu rheoli'n gynaladwy ac yn cael eu gwerthfawrogi gan bobl Cymru. Rydym wedi darganfod y byddwn, er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, ac yn enwedig er mwyn darparu a chefnogi gweithgareddau dysgu mewn coetir, yn gorfod:

- Darparu profiadau dysgu o ansawdd wrth ddefnyddio coetiroedd
- Gweithredu fel hwyluswr allweddol fel y gall eraill ddefnyddio coetiroedd ar gyfer dysgu
- Gweithio gyda phartneriaid i ddylanwadu ar lunio a gweithredu polisïau dysgu

Gall coetiroedd gynnig adnodd dysgu nodedig. Yn aml, maent yn llefydd hygyrch ac ysgogol sy'n cynnig lleoliad diogel, grymus a chyffrous ar gyfer pob math o ddysgu i bob math o bobl. Yng Nghymru, mae'r llefydd hyn fel arfer ar stepen ein drws.

Adnodd cyfoethog

Maent yn darparu adnodd cwricwlaidd cyfoethog ar gyfer amrediad eang o bynciau – o wyddoniaeth, celf ac addysg gorfforol i ddaearyddiaeth, cerddoriaeth ac addysg bersonol a chymdeithasol, yn ogystal â chyfleoedd i ddysgu sgiliau bywyd allweddol megis gwaith tîm, cyfathrebu a meithrin hunan barch.

Amgylchedd amryfal

Mae'r defnyddiau amryfal ac eang o ddysgu mewn coetir ar gael i bawb – o blant ifainc yn y Cyfnod Sylfaenol newydd (rhwng tair a saith oed), ysgolion cynradd ac uwchradd ac addysg bellach ac uwch, trwodd i deuluoedd ac oedolion sy'n dysgu, plant wedi dadrithio a dysgwyr ag anghenion arbennig.

Ystafell ddosbarth gynaladwy

Mae coetiroedd a'r defnydd o bren fel deunydd yn cyflwyno'r syniad o ddatblygu cynaladwy mewn ffordd ddealladwy ac yn darparu cysylltiad agosach â'r byd naturiol.

Dewis iach

Mae yna lawer o fanteision i'r corff a'r meddwl o fod yn weithgar yn yr awyr agored a gall defnyddio coetiroedd ar gyfer dysgu gyfrannu at iechyd a lles plant.

Lle diogel

Mae'r rhan fwyaf o goetiroedd yn llefydd awyr-agored diogel ar gyfer dysgu. Mae iechyd a diogelwch o bwys mawr i ni, ac mae staff wedi'u hyfforddi'n llawn, ynghyd ag asesiadau risg ac archwiliadau rheolaidd, yn cael eu darparu er mwyn gwneud yn siŵr fod y coetiroedd sy'n cael eu rheoli gan CC Cymru yn llefydd diogel i bawb. Mae cyngor a chymorth ar gael hefyd i eraill sy'n defnyddio coetiroedd ar gyfer dysgu.

INTRODUCTION

Forestry Commission Wales acts as the Welsh Assembly Government's Department of Forestry and as stewards of the 38% of Welsh woodlands owned by the National Assembly.

Our vision is that all woodland in Wales will be sustainably managed and valued by the people of Wales. We have identified that in order to realise this vision, and in particular to make provision and provide support for woodland based activities, we need to:

- Provide quality learning experiences using woodlands
- Act as a key facilitator to enable others to use woodlands for learning
- Work with partners to influence learning policy and practice

Woodlands can offer an outstanding learning resource. They are often accessible and stimulating environments that offer a safe, robust and exciting arena for all kinds of learning, for all kinds of people. In Wales, they are more often than not right on people's doorsteps.

A rich resource

They provide a rich curricular resource for a wide range of subjects from science, arts and physical education through to geography, music and personal and social education, as well as opportunities to learn key life skills such as team work, communication and building self esteem.

A versatile environment

The versatile and broad uses for woodland based learning are available to everyone from young children in the new Foundation Phase (three to seven-year-olds), primary and secondary schools and further and higher education, through to families and adult learners, disaffected children and learners with special needs.

A sustainable classroom

Woodlands, and the use of wood as a material, introduces the concept of sustainable development in an understandable way and provides a closer link to the natural world.

A healthy alternative

There are many associated physical and mental benefits to being active in an outdoor environment and using woodlands for learning can contribute to children's health and wellbeing.

A safe place to be

Most woodlands are safe outdoor places in which to learn. Health and safety is of prime concern to us and fully trained staff, along with risk assessments and regular inspections, are all provided to ensure a safe woodland experience in FC Wales managed woodlands. Advice and support is also available for others using woodlands for learning.

Mae'r ddogfen strategaeth hon yn nodi taw'r canlyniad a geisiwn ar gyfer dysgu yw:

Coetiroedd yng Nghymru yn cael eu defnyddio'n helaeth ac yn ddoeth er mwyn cynnig cyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes a datblygiad personol

Beth ydym yn ei olygu wrth "yn helaeth ac yn ddoeth"?

Yn helaeth - mae coetiroedd ledled Cymru yn cael eu defnyddio mewn amryw o ffyrdd er mwyn dysgu pethau newydd.

- Ar raddfa eang ledled Cymru yn ddaearyddol, mewn ardaloedd gwledig a threfol
- Yn uniongyrchol ac anuniongyrchol, gan ddarparu, hwyluso a dylanwadu
- Gyda llawer o grwpiau o ddysgwyr gwahanol, yn hen ac ifanc, o bob gallu

Yn ddoeth - mae coetiroedd yn cael eu defnyddio yn ofalus gan roi ystyriaeth i'r amgylchedd a bywyd gwyllt.

- Yn dilyn arfer addysg da - yn gysylltiedig â chanlyniadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu ganlyniadau dysgu eraill
- Rhoi blaenoriaeth i ddiogelu'r coetiroedd a ddefnyddir
- Defnyddio dulliau cynaladwy, yn amgylcheddol ac wrth sefydlu prosiectau a all barhau ar ôl i gyfranogiad CC Cymru ddod i ben
- Defnyddio ein hadnoddau (tir, pobl ac arian) mewn ffordd a gafodd ei thargedu a'i gwerthuso

Felly, i grynhoi, hoffem weld coetiroedd ledled Cymru yn cael eu defnyddio mewn amryw o wahanol ffyrdd er mwyn helpu pobl i ddysgu, gan wneud yn siŵr ein bod yn gofalu am y coetir wrth ei ddefnyddio yn adnodd addysgol.

This strategy document identifies the outcome we are seeking to achieve for learning as:

Woodlands in Wales are widely and wisely used to offer opportunities for lifelong learning and personal development

What do we mean by widely and wisely?

Widely - woodlands all over Wales are used in a variety of different ways to learn new things.

- Extensively throughout Wales geographically, in rural and urban areas
- Directly and indirectly, delivering, facilitating and influencing
- With many different learner groups, old and young, of all abilities

Wisely - woodlands are used carefully and with regard for the environment and wildlife.

- Following good education practice - linked to the National Curriculum or other learning outcomes
- Prioritising the protection of the woodlands used
- Being sustainable in approach, both environmentally and in setting up projects which can run after FC Wales involvement has finished
- Using our resources (land, people and money) in a targeted and evaluated way

So, in summary, we would like woodlands throughout Wales to be used in a variety of different ways to help people learn, ensuring we care for the woodland while using it as an educational resource.

SUT YDYM YN GWEITHIO

Er mwyn cyflawni ein canlyniad, rydym wedi datblygu tri amcan neu ffordd o weithio

1. DARPARIAETH UNIONGYRCHOL: gweithio'n uniongyrchol â dysgwyr er mwyn defnyddio coetiroedd ar gyfer dysgu.
2. HWYLUSO: helpu eraill i ddefnyddio coetiroedd ar gyfer dysgu
3. DYLANWADU: dangos i eraill y gwerth o ddefnyddio coetiroedd ar gyfer dysgu

1. DARPARIAETH UNIONGYRCHOL

Digwyddiadau addysgol, sesiynau cychwynnol/byr, profiadau dysgu mewn coetir ac Ysgolion Coedwig.
MAE'R CYFAN YN CAEL EI DDARPARU'N UNIONGYRCHOL GAN CC CYMRU.
Ystadegau allweddol

- darparwyd ymweliadau coetir i hyd at 20,000 o blant y flwyddyn
- adborth yn dangos fod 95% o'r farn fod eu hymweliadau yn dda neu'n dda iawn
- cafodd 30 o Ysgolion Coedwig eu rhedeg oddi ar 2004

2. HWYLUSO

Hyfforddiant ar gyfer pobl broffesiynol ym myd addysg, Menter Addysg Goedwig (MAG), hyfforddiant Ysgol Goedwig.
CAIFF POB UN EU CEFNOGI YN LLEOL GAN CC CYMRU.
Ystadegau allweddol

- dros 30 diwrnod hyfforddiant mewn swydd ar gyfer ymarferwyr addysg
- 20 o rwydweithiau partneriaeth MAG ar waith ledled Cymru
- dros 50 o brosiectau Grŵp Clwstwr Menter Addysg Goedwig
- grantiau gwerth £40,000 wedi'u rhoi gan MAG yn 2006
- 100 o bobl wedi'u hyfforddi ac ennill cymwysterau arweinwyr Ysgol Goedwig, a rhagor yn derbyn hyfforddiant

3. DYLANWADU

Fforwm Coetiroedd ar gyfer Dysgu, Cynhadledd Coetiroedd ar gyfer Dysgu, Cynhadledd Blant Sibrydion o'r Goedwig, Cynhadledd Ysgol Goedwig, sioeau addysg, digwyddiadau addysgol.
MAE'R CYFAN DAN DDYLANWAD RHAGWEITHIOL CC CYMRU.
Ystadegau allweddol

- cynnal pedair cynhadledd i oedolion a phlant
- denu 100 o oedolion i'n cynadleddau a daeth dros 60 o blant i'n cynadleddau i blant
- sylw yn y wasg ac ar y radio a'r teledu, gan gynnwys cyhoeddiadau arbenigol fel TES Cymru
- datblygu hyfforddiant Ysgol Goedwig trwy'r rhwydwaith partneriaeth
- sylw i Fforwm Coetiroedd Ar Gyfer Dysgu yn 'Cynllun Gweithredu Adeiladu'r Cyfnod Sylfaenol'

Yn gyffredinol, credwn y bydd y dull cyfunol hwn o ddarpariaeth uniongyrchol, hwyluso a dylanwadu yn ein helpu i wneud defnydd llawn o'r amrediad eang o gyfleoedd sydd ar gael ar gyfer dysgu mewn coetir.

HOW WE WORK

To achieve our outcome we have developed three objectives, or ways of working

1. DIRECT DELIVERY: working directly with learners to use woodlands for learning
2. FACILITATING: helping others use woodlands for learning
3. INFLUENCING: showing others the value of using woodlands for learning

1. DIRECT DELIVERY

Education events, introductory/short sessions, woodland learning experiences and Forest Schools.
ALL ARE DIRECTLY DELIVERED BY FC WALES.
Key figures

- delivered woodland visits to up to 20,000 children per year
- feedback indicates over 95% rating their visits good or very good
- ran 30 Forest School programmes since 2004

2. FACILITATING

Training for education professionals, Forest Education Initiative (FEI), Forest School training.
ALL ARE SUPPORTED AT LOCAL LEVEL BY FC WALES.
Key figures

- over 30 in-service training days for education practitioners
- 20 established FEI partnership networks working throughout Wales
- over 50 FEI Cluster Group projects
- £40,000 given in grants by FEI in 2006
- 100 people trained and qualified as Forest School leaders and more in training

3. INFLUENCING

Woodlands for Learning Forum, Woodlands for Learning Conference, Whispers from the Woods Children's Conference, Forest School Conference, education shows, educational events.
ALL ARE INFLUENCED PRO-ACTIVELY BY FC WALES.
Key figures

- held four conferences for adults and children
- over 100 adult delegates attracted to our conferences and over 60 child delegates at our children's conferences
- press and broadcast media coverage including specialist publications such as TES Cymru
- developing Forest School training through partnership network
- Woodlands for Learning Forum cited in the recently published 'Building the Foundation Phase Action Plan'

Overall, we believe that this combined approach of direct delivery, facilitating and influencing will help us to make full use of the wide spectrum of opportunities available for woodland learning.

Ymweliadau â Choetir

Mae'r rhain yn ymweliadau undydd gyda'r bwriad o gyfnerthu ac ategu gwaith dosbarth.

Diwrnod y Llyfr
Plant 6 - 7 oed
Canolfan Groeso Garwnant

Amy Phillips, Swyddog Addysg CC Cymru

"Er mwyn cefnogi Diwrnod y Llyfr, roeddem eisiau ehangu un o'n hymweliadau coetir fel y gallai plant ysgol lleol fod yn rhan o gynhyrchu llyfr o gerddi wedi'u hysbrydoli gan eu profiad yn y coetir. Bu'r plant o bedwar dosbarth mewn ysgolion lleol yn treulio diwrnod gyda mi yng Nghanolfan Groeso Garwnant ar gyfer 'diwrnod profi coed'. Nid oedd rhai ohonynt wedi bod mewn coedwig o'r blaen, ac felly roedd modd i ni eu cyflwyno i'r coed a'r dail gwahanol ac esbonio'r gwahaniaeth rhwng coeden golldail a chonwydd. Yna bu'r plant yn treulio diwrnod yng Nghanolfan Amgylcheddol Glyncornel gyda bardd lleol a fu'n gweithio gyda nhw ar syniadau ar gyfer ysgrifennu barddoniaeth wedi'i hysbrydoli gan eu profiad o'r coetir. Cafodd sawl darn o farddoniaeth ei gyfansoddi gan y plant - ambell un gan ddosbarth cyfan, eraill gan grwpiau bach a rhai gan unigolion. Rhoddais y cyfan mewn blodeugerdd a gyhoeddwyd gennym i ddynodi Diwrnod y Llyfr. Aeth y plant yn ôl i Garwnant a chafodd y llyfryn o farddoniaeth ei gyflwyno iddyn nhw gennyf i a'r bardd."

Athro, Ysgol Gynradd Llanharan

"Mae'r prosiect wedi bod yn gyfle gwych i'r plant ddefnyddio'u sgiliau ysgrifennu creadigol yn dilyn eu hymweliad â'r coetir.Mae wedi ysgogi ein hysgol i chwilio am gyfleoedd pellach i gynnwys dysgu awyr-agored yn ein gwaith o ddydd i ddydd. Mae gennym goetir ar safle ein hysgol nad yw'n cael ei ddefnyddio, a byddwn yn ystyried sut i ddefnyddio'r coetir hwnnw fel rhan o'n gwersi, gydag ychydig o help gan dîm Coetiroedd ar gyfer Dysgu."

Woodland Visits

These are day visits designed to consolidate and support class work.

World Book Day
6 - 7 year olds
Garwnant Visitor Centre

Amy Phillips, FC Wales Education Officer

"To support World Book Day, we wanted to extend one of our traditional woodland visits to enable local school children to participate in producing a book of poems inspired by their woodland experience. The children from four classes at different local schools spent a day at Garwnant Visitor Centre with me for a traditional 'tree experience day'. Some of them had never been in a forest environment previously so we were able to introduce them to the different trees and leaves and explain the difference between a broadleaf and a conifer. The children then spent a day at Glyncornel Environment Centre with a local poet who worked with them on ideas for poetry writing inspired by their woodland experience. The children wrote many poems - some as a whole class, some as small groups and some as individuals and I put them together into an anthology which we had published to mark World Book Day. The children returned to Garwnant and were presented with the booklet of poems by myself and the poet."

Teacher, Llanharan Primary School

"The project has been a great opportunity for the children to follow up their woodland visit and use their creative writing skills. It has encouraged our school to look at further opportunities for including outdoor learning in our day to day work. We have an unused woodland on our school grounds and will be looking into incorporating the use of that woodland into our lessons, with a little help from the Woodlands for Learning team."

1 DARPARIAETH UNIONGYRCHOL **o brofiadau dysgu o ansawdd yn cael ei ystyried gan bobl broffesiynol yn enghreifftiau o arfer da.**

Rydym yn gweithio'n uniongyrchol gyda dysgwyr, gan rannu gweithgareddau ysgogol sy'n gysylltiedig â nodau'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu nodau dysgu eraill, gan ddibynnu ar anghenion y dysgwyr.

Ein nod yw bod ein gweithgareddau a dulliau'n cael eu hystyried yn rhai o'r ansawdd gorau ac yn enghraifft wych o ddefnyddio'r awyr agored ar gyfer dysgu gan gydweithwyr yn y sectorau addysg, dysgu a choedwigaeth.

Rydym yn mesur hyn trwy:

- Adborth ansoddol gan athrawon a phlant
- Nifer y plant sy'n dysgu mewn coetiroedd ac yn dysgu amdanynt gyda'n staff yn uniongyrchol
- Ceisiadau am ailymweliadau neu weithio parhaus gydag unrhyw agwedd ar ein gwasanaeth

1 DIRECT DELIVERY **of quality learning experiences regarded by professionals as examples of good practice.**

We work directly with learners, sharing stimulating activities linked to the National Curriculum or other learning goals, dependent on the learners' needs.
It is our aim that the activities and approach we use will be considered to be of the highest quality and an excellent example of using the outdoors for learning by colleagues in both the education, learning and forestry sectors.

We measure this by:

- Qualitative feedback from teachers and children
- Number of children learning in and about woodlands working with our staff directly
- Requests for repeat visits or continued working with any aspect of our service

1
DARPARIAETH UNIONGYRCHOL

"Yn y dyfodol hoffwn roi'r un cyfle i ddisgyblion newydd yr uned oherwydd roedd mor werthfawr. Fel athro'r disgyblion byddwn yn dweud fod y profiad yn werthfawr a hoffwn gymryd rhan yn yr Ysgol Goedwig yn y dyfodol. Diolch o galon, Lyn, am y profiad unigryw."

Shan Lea, Athrawes

Ysgol Goedwig Mae'r dull hwn yn seiliedig ar ymweliadau rheolaidd ac ailymweliadau â'r coetir gydag arweinydd Ysgol Goedwig , yn seiliedig ar raglen sy'n cynnwys o leiaf chwe ymweliad. Gyda chymhareb uchel o gynorthwywyr, y nod yw datblygu sgiliau bywyd y dysgwyr, ac mae'n ffordd dda o gymell pobl i ddod i adnabod eu coetir lleol, gan ddysgu sgiliau newydd ar yr un pryd.

Ysgol Goedwig - Tŷ Meirion
Pant 11-17 oed ag anghenion arbennig
Coed y Brenin

Lyn Williams, Swyddog Addysg CC Cymru

"Roedd yr holl blant a fu'n cymryd rhan yn dod o uned anghenion arbennig ac roedd ganddyn nhw anghenion dysgu unigol. Felly, roedd angen ystyried hynny wrth drefnu'r rhaglen. Roedd yr holl weithgareddau'n rhai ymarferol a syml ac roedd modd i bob disgybl gwblhau pob tasg yn annibynnol, gan ddatblygu hunan-barch a hunanwerth. Roedden nhw i gyd yn cael balchder wrth ddangos eu gwaith i'w gilydd. Bob wythnos byddai darn o waith celf neu ryw weithgaredd crefft yn cael ei greu a'i gymryd yn ôl i'r ysgol. Trwy ddod yn ôl i'r un man gweithio bob wythnos, i'r un arweinydd a thrwy osod tasgau y gellid eu cyflawni roedden nhw'n cael help i deimlo eu bod yn perthyn i'r Ysgol Goedwig . Hefyd, roedden nhw'n gallu creu ymdeimlad o gyflawniad er mwyn datblygu eu hunan-barch."

Shan Lea, Athrawes

"Wedi ymweld â'r Ysgol Goedwig yng Nghoed y Brenin dros gyfnod o sawl wythnos, roedd gan y disgyblion gyfle i brofi pethau na fasen nhw wedi cael y cyfle i'w profi fel arall. Roedd y lloches o foncyffion mewn cylch a godwyd i'n croesawu yn creu'r awyrgylch ddelfrydol ar gyfer dysgu waeth beth oedd y tywydd. Bob wythnos cafodd gweithgaredd gwahanol ei drefnu, megis chwilio am ddefnydd i wneud nyth, taith gerdded natur yn dilyn cliwiau ar hyd y ffordd, neu wneud blwch adar a'i osod yn y lle cywir yn y coetir. Roedd y profiadau'n werthfawr dros ben i'r disgyblion yn Nhŷ Meirion am fod ganddyn nhw anghenion arbennig. Roedd y safle a ddewiswyd gan Lyn a'i chydweithwyr yn addas ar gyfer cadair olwyn. Roedd y gweithgareddau'n addas ar gyfer eu hoed a'u gallu a chawsant eu creu i gyd-fynd â thema'r tymor."

1
DIRECT DELIVERY

"In the future I would like to give new pupils to the unit the same opportunity because it was so valuable. As the pupils' teacher I would say the experience was valuable and I would like to take part in Forest School in the future. Thank you from the heart Lyn for the unique experience."

Shan Lea, Teacher

Forest School This approach is based on regular and repeated visits to the same woodland with a Forest School leader, based on a programme of at least six visits. With a high ratio of helpers, it is aimed at developing learners' life skills and is a good way to encourage people to get to know their local woodland, learning new skills at the same time.

Forest School - Tŷ Meirion
11-17 year old special needs children
Coed-y-Brenin

Lyn Williams, FC Wales Education Officer

"All the children involved were from a special needs unit and had individual learning needs which required consideration when setting up the programme. All the activities were very hands on and simple and all pupils were able to complete each task independently developing their self esteem and self worth. They were all very proud to show off their work to each other and each week a piece of art work or some craft activity was created to take back to the school. Through coming out to the same place every week, to the same leader and by setting achievable tasks it helped to give them a sense of belonging to the Forest School and able to create a sense of achievement helping to develop their self esteem."

Shan Lea, Teacher

"Having visited Forest School at Coed y Brenin over a number of weeks, the pupils had the opportunity to experience things that they would not have otherwise had. The log circle shelter which was erected to welcome us created an ideal atmosphere to learn in an outdoor environment whatever the weather. Each week a different activity was organised, such as finding materials to make a nest, a nature walk following clues along the way or making up a bird box and putting it up in the right place in the woodland. The experiences were very worthwhile for the pupils of Ty Meirion because they have special needs. The site that was chosen by Lyn and her co-workers was suitable for a wheel chair. The activities were suitable for their age and capability and were created to fit in with the term's theme."

Hyfforddiant ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol ym Myd Addysg

Mae'r tîm Coetiroedd ar gyfer Dysgu yn cynnig cyfleoedd hyfforddiant i'r rhai sy'n dymuno gweithio gyda grwpiau o bobl ifanc mewn coetir, ond sydd ag angen gwybodaeth ychwanegol neu gynghorion ynglŷn â gweithio yn yr awyr agored. Yn aml bydd hyn yn digwydd mewn diwrnod hyfforddi HMS i athrawon neu weithwyr proffesiynol eraill ym myd addysg, ond gall hefyd olygu diwrnodau neu sesiynau i Grwpiau Clwstwr MAG, perchnogion coetiroedd neu unrhyw un arall sy'n dymuno defnyddio coetiroedd yn adnodd dysgu.

Diwrnod Lleoli Athrawon
Parc Gwledig Loggerheads
Sir Ddinbych

Sue Williams, Rheolwraig CC Cymru yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru / Cydlynydd MAG

"Ym mis Mawrth 2006, trefnon ni ddiwrnod lleoli athrawon gyda phartneriaeth Gyrfa Cymru'r Gogledd Ddwyrain ym Mharc Gwledig Loggerheads yn Sir Ddinbych. Er ei bod yn ddiwrnod oer dros ben, mentrodd deg o athrawon o naw ysgol wahanol allan i'r parc. Dechreuodd y bore gyda chyflwyniad i'r hyn y mae tîm CC Cymru yn ei wneud a chyd-destun ein gwaith. Dilynwyd hyn gan y materion iechyd a diogelwch sydd fel arfer yn destun pryder i bawb. Serch hynny, tawelwyd meddyliau'r athrawon wrth weld enghraifft o asesiad risg hawdd ei ddilyn ac yn benodol ar gyfer yr ardal. Yna buom yn gwario gweddill y bore yn gwibio i mewn ac allan o'r ystafell ddosbarth wrth i wahanol bynciau gael eu cyflwyno. Roedd gan yr athrawon gyfle i wneud coctel drewllyd, paru lliwiau, chwarae gêmau i'w cadw'n gynnes a chodi llochesi bach. Ym mhob achos, cafodd y cysylltiadau â'r cwricwlwm eu trafod yn ôl yn yr ystafell ddosbarth a chafodd gweithgareddau cysylltiol eu hawgrymu. Wrth i'r eira ddisgyn yn y prynhawn, buom yn ddigon dewr i fentro i Foel Famau (tua 500m) i edrych ar y llwybr pos anifeiliaid a'r llwybr rhifedd.

Islwyn Roberts, trefnydd Gyrfa Cymru

"O'm rhan fy hun, y lleoliad hwn oedd un o'r diwrnodau gorau, os nad y diwrnod gorau oll, i mi ei fynychu ers i mi ddechrau yn fy ngwaith yn 2004. Roedd hyd yn oed yr eira'n ychwanegu at y profiad ac yn dangos pa mor ysgogol y gall yr awyr agored fod."

2 HWYLUSO fel y gall eraill ddefnyddio coetiroedd ar gyfer dysgu

Rydym yn gweithio er mwyn ysbrydoli athrawon ac eraill a'u cynorthwyo i ddefnyddio coetiroedd i gyfoethogi ac ymestyn darpariaeth addysg.

Ein nod yw cynorthwyo rhwydweithiau lleol i allu gwneud mwy o ddefnydd o goetiroedd ar gyfer dysgu yn unol ag anghenion a chyfleoedd yr ardal.

Rydym yn mesur hyn trwy:

- Nifer y grwpiau clwstwr MAG a phrosiectau partneriaeth gweithredol
- Nifer y bobl sy'n derbyn/wedi cwblhau Hyfforddiant Ysgol Goedwig achrededig trwy Gomisiwn Coedwigaeth Cymru
- Nifer y diwrnodau hyfforddi ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym myd addysg

Training for Education Professionals

The Woodlands for Learning Team offer training opportunities for those who want to work with groups of young people in a woodland setting, but need some extra information or tips and tricks for working outdoors. Often this takes the form of an INSET training day for teachers or other educational professionals, but also includes days or sessions for FEI Cluster Groups, woodland owners or anyone who wants to use woodlands as a learning resource.

Teacher Placement Day
Loggerheads Country Park
Denbighshire

Sue Williams, FC Wales North & Mid-Wales Manager / FEI Co-ordinator

"In March 2006, we organised a teacher placement day with the North East Careers Wales partnership at Loggerheads Country Park in Denbighshire. Despite it being an extremely cold day, 10 teachers from 9 different schools wrapped themselves up to brave the elements. The morning started with an introduction to what the FC Wales team does and the context in which we work. This was followed by the dreaded health and safety issues which usually worries everyone but seeing an example of an easy to follow risk assessment tailor-made for the area put the teachers' minds at rest. We then spent the rest of the morning dashing in and out of the classroom as different topics were introduced. The teachers had a chance to make a smelly cocktail, do some colour matching, play games to warm them up and build mini shelters. In each case, curriculum links were discussed back in the classroom and linked activities suggested. As the snow fell in the afternoon, we braved a trip to Moel Famau (approx. 500m) to look at the animal puzzle trail and the numeracy trail.

Islwyn Roberts, Careers Wales organiser

"From my point of view, this placement was one of the best days, if not the best day, I have attended since I started in post in 2004. To my mind even the snow added to the experience and further illustrated how stimulating the outdoors can be."

2 FACILITATING to enable others to use woodlands for learning

We work to inspire and assist teachers and others to use woodland settings for enriching and extending education provision.

It is our aim to support local networks to build greater capacity for using woodlands for learning attuned to the needs and opportunities of the area.

We measure this by:

- Number of active FEI cluster groups and partnership projects
- Number of people undergoing/completed accredited Forest School Training provided through FCW
- Number of training days for educational professionals

2
HWYLUSO

Menter Addysg Goedwig (MAG) Partneriaeth ar draws Prydain sy'n cynnwys y Comisiwn Coedwigaeth, Groundwork, Coed Cadw, y Cyngor Astudiaethau Maes, BTCV, y Cyngor Goed a Confor (Cydffederasiwn Diwydiannau'r Goedwig). Nod MAG yw cynyddu dealltwriaeth a mwynhad pobl ifanc o bren, coed a choedwigoedd a'r rhan bwysig y mae'r rhain yn ei chwarae wrth fyw bywyd cynaladwy. Yn lleol, mae'n gweithio gyda phobl ifanc trwy ei rwydwaith cenedlaethol o grwpiau lleol - Grwpiau Clwstwr. Mae'r rhain yn grwpiau annibynnol sy'n cael eu rheoli o fewn eu cymunedau lleol ac sy'n gyfarwydd ag anghenion lleol. Ar hyn o bryd mae yna ugain o Grwpiau Clwstwr MAG yng Nghymru.

Theatr Mewn Addysg
Grwpiau Clwstwr Egin Conwy a Hadau

Sue Williams, Rheolwraig CC Cymru yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru / Cydlynydd MAG

*"Ar y cyd, llwyddodd grwpiau clwstwr Egin Conwy a Hadau i gael hyd i £10,000 i ysgrifennu, datblygu a chynhyrchu drama ar gyfer plant Cyfnod Sylfaenol, mewn partneriaeth â chwmni theatr Cwmni'r Frân Wen. Mae **'Dwi eisio dringo coeden' / 'I want to climb a tree'**, gan Angharad Tomos yn adrodd hanes Telor, bachgen bach sy'n ysu am gael chwarae yn y goedwig a dringo coeden.*

Mae'r ddrama'n ymwneud ag anturiaethau Telor a chreaduriaid y goedwig y mae'n cwrdd â nhw. Cafodd ei pherfformio i oddeutu 200 o ysgolion yng Nghonwy, Gwynedd ac Ynys Môn yn ystod 2006, gyda'r potensial o gyrraedd 10,000 o blant. Y ddrama hon yw prosiect cyntaf MAG yn Gymraeg Cafodd ei chyfieithu wedyn a'i pherfformio'n ddwyieithog yn ystod ail ran y daith.

Cafodd pob ysgol y bu'r ddrama'n ymweld â hi gyfle o ymweliad am ddim â choetir wedi'i drefnu gan un o Swyddogion Addysg CC Cymru. Nod yr ymweliadau hyn oedd adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd yn y ddrama a rhoi cyfle i bob plentyn gael profiad tebyg i hwnnw a gafodd y bachgen bach Telor."

"Mae Theatr Mewn Addysg yn cynnig profiad byw a chyfoethog i'r plant ac yn cyflwyno neges/gwybodaeth mewn ffordd real iawn. Mae 'n tanio 'u dychymyg."

MEINIR THOMAS, YSGOL PENCARNISIOG

2
FACILITATING

Forest Education Initiative (FEI) This is a GB wide partnership involving Forestry Commission, Groundwork, Woodland Trust, Field Studies Council, Timber Trade Federation, BTCV, the Tree Council and Confor (Confederation of Forest Industries). FEI aims to increase young people's understanding and enjoyment of timber, trees and forest environments and the important role that these play in sustainable lifestyles. At a local level it works with young people through its national network of local groups - Cluster Groups. These are independent groups, managed within their local communities and attuned to local needs. There are currently 20 FEI Cluster Groups in Wales.

Theatre in Education
Egin Conwy and Hadau Cluster Groups

Sue Williams, FC Wales North & Mid-Wales Manager / FEI Co-ordinator

*"Egin Conwy and Hadau cluster groups jointly secured £10,000 to write, develop and produce a play for Foundation Phase children, in partnership with the Cwmni Fran Wen Theatre Company. **'Dwi eisio dringo coeden' / 'I want to climb a tree'**, by Angharad Tomos, tells the story of Telor, a little boy who yearns to play in the woods and climb a tree.*

The production telling of Telor's adventures and the woodland creatures he meets toured to around 200 schools in Conwy, Gwynedd and Anglesey throughout 2006, with the potential to reach 10,000 children. This play is the first FEI project to be written in Welsh and was translated and toured bilingually during the second phase of the tour.

Each school visited was offered the chance of a free woodland visit facilitated by an FC Wales Education Officer. The aim of the visits was to build on the lessons learnt in the play and give each child the chance to have a similar experience to the little boy, Telor."

"Theatre in Education offers the children a live and enriching experience and conveys a message/information in a very real way. It ignites their imagination."

MEINIR THOMAS, YSGOL PENCARNISIOG

Hyfforddiant Ysgol Goedwig Mae hyfforddiant arweinwyr Ysgol Goedwig yn arwain ar gymhwyster Lefel 3 (safon Lefel 'A') ac wedyn mae arweinwyr yn gymwys i redeg eu rhaglenni Ysgol Goedwig eu hunain. Yn ogystal, mae gan dîm Coetiroedd ar gyfer Dysgu ran allweddol i'w chwarae yn Rhwydwaith Hyfforddi Ysgolion Coedwig Coleg Agored Cymru wrth fireinio hyfforddiant yr Ysgol Goedwig ac edrych ar gyrsiau Lefelau 1 a 2 (TGAU) ar gyfer disgyblion 14 - 19 oed a dysgwyr hŷn sy'n dymuno cynorthwyo arweinwyr Ysgol Goedwig.

"Fel prifathro, ro'n ni'n gwybod y byddai'n ddelfrydol i'n plant"

Sian Jones, Ysgol Babanod Duffryn

Hyfforddiant Ysgol Goedwig Dyffryn Casnewydd

Lucy Kirkham, Comisiwn Coedwigaeth Cymru

"Gall Ysgol Goedwig a darpariaeth hyfforddiant Ysgol Goedwig gan CC Cymru gael effaith ar y gymuned gyfan.

Bum mlynedd yn ôl roedd trigolion Dyffryn ger Casnewydd yn pryderu'n fawr am eu coetir lleol. Fel canlyniad i ymddygiad gwrthgymdeithasol, cafodd deiseb ei harwyddo gan 400 o bobl yn gofyn am glirio'r coetir. Roedd Dolen Gymunedol Dyffryn, sefydliad gwirfoddol egniol am adfer y coetir yn hytrach na chael gwared â'r coed, a chysylltodd â CC Cymru am gyngor a chymorth.

Roedd addysg yn cael ei hystyried yn ffactor allweddol o ran adfywio'r coetir. Cafodd llain o goetir wrth ymyl yr Ysgolion Cynradd a Babanod lleol ei ffensio i greu safle Ysgol Goedwig , a chrëwyd rhaglenni Ysgol Goedwig ar gyfer y plant. I ddechrau, cafodd y sesiynau eu harwain gan staff CC Cymru a Groundwork, ond ar ôl hyfforddiant arweinwyr gan CC Cymru , mae gan y ddwy ysgol bum arweinydd cymwysedig erbyn hyn, ac mae pedwar arall yn derbyn hyfforddiant. Yn ogystal, mae Ysgol y Babanod Dyffryn wedi darparu deuddydd o hyfforddiant i'r holl staff ac i gynrychiolwyr o'r gymuned a fydd yn cynnig cymorth ychwanegol.

I ddechrau, roedd amheuon gan y rheini a'r gofalwyr, ond bellach maent yn gefnogol iawn ac mae sesiynau i deuluoedd yn rhan o'r rhaglenni. Cafodd Ysgol Goedwig Dyffryn sylw yn 'The Independent', 'Journal of Environmental Education', Teachers' TV a 'Bobinogs' ar BBC Cymru. Cafodd sylw hefyd yng nghynhadledd Cyfnod Sylfaenol 'O Ddenmarc i Ddyffryn' ym Mhrifysgol Cymru, Casnewydd yn 2003.

Eleni, agorwyd Canolfan Integredig i Blant yng Nghasnewydd ar safle Dyffryn, i ddarparu cymorth proffesiynol i blant a theuluoedd, gofal plant a chynlluniau chwarae. Mae ei enw, Y Canolfan Coedwig yn dyst i'r rhai a weithiodd mor galed i gael y coetir i weithio i'r gymuned."

Forest School Training Forest School Leader training leads to a Level 3 qualification ('A' level standard) and leaders are then equipped to run their own Forest School programmes. The Woodlands for Learning Team also has a key role in the OCN Wales Forest School Training Network in refining Forest School training and looking at Level 1 and 2 courses (GCSE level) for 14 - 19 year olds and older learners wishing to support Forest School leaders.

"As a head teacher, I knew it was right for our children."

Sian Jones, Duffryn Infant School

Duffryn Forest School Training Newport

Lucy Kirkham, Forestry Commission Wales

"Forest School and provision of Forest School training by FC Wales can have an impact on the whole community.

Five years ago the residents of Duffryn near Newport had serious concerns about their local woodland. Anti social behaviour led to 400 people signing a petition asking for the woodland to be cleared. Duffryn Community link, a vibrant voluntary organisation wanted to reclaim rather than remove it and contacted FC Wales for advice and support.

Education was seen as a key factor in revitalising the woodland. Fencing a strip of woodland adjacent to the local Junior and Infant Schools created a Forest School site, and Forest School programmes were set up for the children. Initially sessions were led by FC Wales and Groundwork staff, but through leader training provided by FC Wales, the two schools now have five fully qualified leaders and four more in training. Duffryn Infant School has also provided two days' training for all their staff and community representatives to provide extra support.

At first, parents and carers had reservations, but are now very supportive and family sessions are built into the programmes. Duffryn Forest School has been featured in 'The Independent', 'Journal of Environmental Education', Teachers' TV and BBC Wales' 'Bobinogs'; it was also featured in a Foundation Phase conference 'From Denmark to Duffryn' at University of Wales, Newport in 2003.

This year, an Integrated Children's Centre for Newport opened at the Duffryn site, providing professional support for children and families, childcare and playschemes. Its name, The Forest Centre, is testament to all those who worked so hard to get the woodland to work for the community."

3 DYLANWADU ar lunio a gweithredu polisïau dysgu trwy ddefnyddio amrediad a chryfder ein darpariaeth a phartneriaethau yn lleol a chenedlaethol.

Rydym yn aelod rhagweithiol o'r gymuned ddysgu ac yn cysylltu â Llywodraeth Cynulliad Cymru, Awdurdodau Unedol a sefydliadau eraill, gan gynnwys y sector gwirfoddol.

Ein nod yw gwneud yn siŵr fod datganiadau a chanllawiau polisi yn cydnabod coetiroedd yn adnodd dysgu gwerthfawr ac yn cymell defnydd addysgol priodol o goetiroedd. Er enghraifft, trwy ein Fforwm Coetiroedd ar gyfer Dysgu rydym wedi helpu i wneud yn siŵr fod yr awyr agored yn cael ei gynnwys ym mhob agwedd ar ddysgu yn y Cyfnod Sylfaenol sydd newydd ei ddatblygu.

Rydym yn mesur hyn trwy:

- Cynnwys coetiroedd a'r awyr agored mewn datblygiadau dysgu fel y Cyfnod Sylfaenol
- Defnyddio coetiroedd ar gyfer dysgu yn unol â'r hyn sy'n cael ei gyflwyno mewn cynadleddau, adroddiadau newyddion a phapurau ymchwil
- Lefel yr hyrwyddo trwy gyfrwng cynadleddau a'r cyfryngau darlledu/y wasg

Cynhadledd Coetiroedd ar gyfer Dysgu Yr Wyddgrug, 2004

Sue Ginley, Arweinydd Tîm coetiroedd ar gyfer Dysgu

"Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi cynnal cynhadledd 'Coetiroedd ar gyfer Dysgu' yn flynyddol oddi ar 2002. Mae'r gynhadledd yn denu tua 100 o gynrychiolwyr bob blwyddyn, gydag oedolion a phlant yn gyfranogwyr bob yn ail.

Yn 2004, cawsom gynhadledd i oedolion yn yr Wyddgrug, Sir y Fflint. Roedd y diwrnod, a hwyluswyd gan Anthony Thomas, Prif Weithredwr y Cyngor Astudiaethau Maes a Chadeirydd Gweithredol MAG, yn cynnwys gweithdai ar amryw o bynciau gan gynnwys Mynd i'r Afael â Dadrithiad gydag Ysgol Goedwig, Cynghorion ynglŷn â dysgu mewn Coetir, Cerddoriaeth a Drama yn y Coed a Gweithio gyda Helyg.

Mynychwyd y gynhadledd gan 119 o gynrychiolwyr, ac roedd y sylw da a gafwyd yn y wasg yn cynnwys erthygl ar dudalen flaen TES Cymru.

Roedd yr adborth o'r diwrnod yn dda iawn, gyda chyfleoedd ar gyfer rhwydweithio yn uchel ar restr y cynadleddwyr o'r manteision o fod yn bresennol. Siaradodd llawer am frwdfrydedd o'r newydd a chadarnhad fod yna bwrpas i'r hyn roeddent yn ei wneud. Meddai un cynadleddwr, "Diolch am ddiwrnod hynod ysbrydoledig ddydd Iau diwethaf. Rwyf eisoes wedi cynnwys rhai syniadau mewn Pecyn Addysgol rwy'n ei ddatblygu a bu'r rhain yn llwyddiannus mewn dosbarth o blant 4/5 oed."

Mae'r digwyddiadau hyn yn gyfle i greu brwdfrydedd ynglŷn â manteision dysgu mewn coetir ymhlith dysgwyr ac athrawon ac maent hefyd yn fodd i gael adborth gwerthfawr er mwyn helpu i wella'r ddarpariaeth."

Credwn y bydd y dull cyfunol hwn o ddarpariaeth uniongyrchol, hwyluso a dylanwadu yn ein helpu i wneud defnydd llawn o'r amrediad eang o gyfleoedd sydd ar gael ar gyfer gwneud y mwyaf o ddefnyddio coetir mewn dysgu.

3 INFLUENCING learning policy and practice by using the range and strength of our provision and partnerships both locally and nationally.

We are a pro-active member of the learning community and engage with the Welsh Assembly Government, Unitary Authorities and other organisations including the voluntary sector.

It is our aim to ensure that relevant policy statements and guidance recognise woodlands as a valuable learning resource and encourage appropriate educational use of woodlands. For example, through our Woodlands for Learning Forum we have helped to ensure that the outdoors is included in all areas of learning in the newly developed Foundation Phase.

We measure this by:

- Inclusion of woodlands and outdoors in learning developments such as the Foundation Phase
- Use of woodlands for learning as demonstrated at conferences, in news reports and in research papers
- Level of promotion through conferences and press/broadcast media

Woodlands for Learning Conference Mold, 2004

Sue Ginley, Woodlands for Learning Team Leader

"An annual 'Woodlands for Learning' conference has been hosted by Forestry Commission Wales since 2002. The conferences attract around 100 delegates each year and alternate between adult and child participants.

In 2004, we held an adult conference in Mold, Flintshire. The day, facilitated by Anthony Thomas, Chief Executive of the Field Studies Council & FEI Executive Chair, included workshops on a diverse range of subjects including Tackling Disaffection with Forest School, Tips and Tricks for teaching in Woodland, Music and Drama in the Woods and Working with Willow.

119 delegates attended the conference and we achieved good press coverage including a front page article in TES Cymru.

Feedback from the day was very good with opportunities for networking being high on delegates' list of benefits of attending. Many spoke of renewed enthusiasm and a confirmation that what they were doing had a purpose. One delegate commented, "Thank you for a wonderfully inspirational day last Thursday. I have already incorporated some ideas into an Educational Pack I am developing and trialed them successfully with a class of 4/5 year olds."

These events offer an opportunity to enthuse both learners and teachers about the benefits of woodland-based learning and also serve as a means of gaining valuable feedback to help improve provision."

We believe that this combined approach of direct delivery, facilitating and influencing will help us to make full use of the wide spectrum of opportunities available to ensure we maximise the use of woodlands for learning.

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

CYSYLLTIADAU

I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes gennych unrhyw awgrymiadau neu syniadau, cysylltwch â thîm Coetiroedd ar gyfer Dysgu yn:

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Swyddfa Genedlaethol Cymru
Rhodfa Fuddug
Aberystwyth
Ceredigion SY23 2DQ

ff: 0845 604 0845

w: www.forestry.gov.uk

CONTACTS

For further information or if you have any suggestions or ideas, contact the Woodlands for Learning team at:

Forestry Commission Wales
National Office for Wales
Victoria Terrace
Aberystwyth
Ceredigion SY23 2DQ

t: 0845 604 0845

w: www.forestry.gov.uk

Ionawr / January 07 dylunio / design: **www.fbagroup.co.uk**